# Trawsnewid y broses amddiffyn plant yng Ngwynedd

AMDDIFFYN PLANT YN EFFEITHIOL
EFFECTIVE CHILD PROTECTION

## Pam y crëwyd y prosiect hwn?

Mae deddfwriaeth a'r hyn sy'n symbylu polisïau yn canolbwyntio ar gydweithio gyda theuluoedd a chyd-gynhyrchu. Mae'r egwyddor sylfaenol yn ymwneud â 'Beth sy'n bwysig' i blant a theuluoedd; ond dyletswyddau statudol yw'r cynsail os oes risg o gamdriniaeth neu niwed. Mae gwrthdaro a chymryd rheolaeth dros ofal yn gosod staff yn y cyd-destun mwyaf heriol i barhau â'r gwaith o gydweithio. O ganlyniad, mae modelau presennol yn methu â tharo cydbwysedd â'r gwaith hwn. Mae llawer o lwyddiannau gweithio ar y cyd yn deillio o ymyrraeth gynnar neu waith ataliol. Yn y cam cynnar hwn, gwan yw profiad y sector o wneud i gydweithio lwyddo yn ystod cyfnod pwysicaf ymyrraeth statudol.

## Fframwaith Amddiffyn Plant yn Effeithiol

Fframwaith ymarfer yw 'Amddiffyn Plant yn Effeithiol' a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r cwestiwn 'sut ydym yn gwybod os yw ein gwaith amddiffyn plant yn effeithiol?'

Cafodd ei ddylunio gan Gyngor Gwynedd gan ymarferwyr profiadol yn y maes amddiffyn plant. Ei nod yw diwallu anghenion ymarfer gwirioneddol y gweithlu gofal cymdeithasol ym myd y gwasanaeth mwyaf beichus o amddiffyn plant rhag niwed a chamdriniaeth.

Mae amddiffyn plant yn ymwneud â newid. Mae amddiffyn plant yn effeithiol pan gyflawnir y newidiadau sy'n angenrheidiol i leihau'r ffactorau sy'n gysylltiedig â niwed arwyddocaol. Felly wrth siarad am newid, mae angen eglurder yn ogystal â pherthynas waith gadarnhaol i gynorthwyo teuluoedd gyda newid.

## Beth all y cynnig ei gyflawni?


- Y gweithlu gorau yng Ngwynedd sy'n gallu cyflawni'r dasg o Amddiffyn Plant yn Effeithiol drwy sgyrsiau gwell, cynlluniau penodol ar gyfer amddiffyn plant, arfer da wrth asesu risg, canlyniadau newid wedi'u diffinio a chamau tuag at newidiadau a nodwyd yn ymarferol.

- Fframwaith wedi'i ddatblygu'n llawn gan gynnwys ffurflenni, prosesau, teclynnau a gweithdrefnau; deunydd hyfforddiant ac e-ddysgu er mwyn ei roi ar waith.

- Adroddiad gwerthuso ac argymhellion er mwyn gweithredu'r cynnyrch a ddatblygir, yn rhannol neu'n llawn, yng Ngwynedd, yn rhanbarthol a chenedlaethol.


## Beth yw pedair elfen y fframwaith?

**Sgyrsiau -** cyfathrebu effeithiol drwy ymarfer 'sgyrsiau cydweithredol'




- Sut mae staff yn defnyddio dulliau medrus wrth ymgysylltu gyda phobl; i ysgogi pobl; a chael sgyrsiau anodd gyda phobl.
- Cynyddu perchnogaeth plant a theuluoedd o'r newid(iadau) sydd ei angen.

**Trothwy** - gwneud penderfyniadau cyson wrth asesu risg



- Sicrhau bod staff yn defnyddio'r Model Risg i brofi’r trothwy o debygolrwydd o niwed arwyddocaol.
- Adeiladu ar ein hymarfer presennol a'i integreiddio i elfennau eraill y model (h.y. sgyrsiau, newid a mesur).

**Newid** - ffocws clir ar y newid sydd ei angen er mwyn atal niwed



- Staff yn canolbwyntio ar feysydd penodol o newid er mwyn cadw plant yn ddiogel.
- Gwella’r ymgysylltu gyda theuluoedd ac asiantaethau eraill mewn Grwpiau Craidd a Chynadleddau.

**Mesur** - mesur ein cynnydd tuag at ganlyniadau



- Sut mae staff yn mesur cynnydd eu hymyrraeth.
- Mesur pob cam tuag at wireddu’r newid fydd yn cadw plant yn ddiogel.

## Cynadleddau Achos a Grwpiau Craidd

Pan adolygwyd ein gwaith achos gwelwyd nad oedd yn glir bob amser beth oedd angen ei newid er mwyn cadw plant yn ddiogel.  Roedd hy yn cael ei golli yn sŵn gwaith achos a’r doreth o dasgau, gwasanaethau a chamau gweithredu.

Roedd ein profiad o Gynadleddau Achos hefyd yn awgrymu hyn.  Roedd Grwpiau Craidd yn brysur iawn, ond nad oedd eglurder bob amser ynglŷn â’r meysydd oedd angen eu newid a fyddai’n arwain at ddiwallu’r pryderon yn ddigonol.   Mewn rhai Cynadleddau Achos, roedd cynrychiolwyr asiantaethau’n cael anhawster cytuno, na bod yn eglur, ar y maes allweddol oedd angen newid.  O ganlyniad, roedd diffyg ffocws ac roedd effaith ar ymrwymiad rhai teuluoedd gyda'r cynllun amddiffyn plant.

Cafodd arddull newydd o gadeirio ei ymarfer mewn rhai Cynadleddau.  Ei nod oedd diweddu Cynadleddau Achos, lle cafwyd penderfyniad i gofrestru, gydag eglurder ynglŷn â'r tri (neu fwy neu lai) maes o newid a

fyddai angen i'r Grŵp Craidd roi sylw iddynt. Byddai'r Gynhadledd yn egluro pa dystiolaeth oedd yn dangos bod pethau 'ddim yn ddigon da' ar hyn o bryd a pha dystiolaeth, gobeithio, fyddai'n cael ei ystyried ar ôl ymyrraeth i ddangos fod pethau 'yn ddigon da' yn y maes hwnnw oedd yn peri pryder. Felly, mae gan y Grŵp Craidd dasg gyda maes ffocws penodol iawn. Wrth gwrs, caniateir i'r Grwpiau Craidd hefyd gynnal tasgau eraill neu ddilyn argymhellion ymylol, ond y meysydd allweddol fydd y prif ffocws.

## Pa gefnogaeth sydd yn ei le ar gyfer ymarferwyr?

### Mentor Ymarfer

Rydym wedi derbyn adnoddau gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r prosiect hwn am ddwy flynedd. Un o'r prif fuddsoddiadau yw rôl mentor ymarfer. Bydd y mentor yn cefnogi staff unigol a thimau wrth iddynt weithredu'r fframwaith. Bydd y rôl yn hyrwyddo dysgu aelodau staff drwy sesiynau un i un a gwaith grŵp wrth iddynt ddefnyddio'r dulliau newydd hyn ac wrth i'r teclynnau ddatblygu. Rydym yn gobeithio dysgu o'r profiadau hyn er mwyn mireinio'r model ymhellach a dyfnhau ein dealltwriaeth o ymarfer.

### Hyfforddiant

Cefnogir pedair elfen Amddiffyn Plant yn Effeithiol gan dair rhaglen hyfforddiant penodol. Mae'r rhain yn cynnwys y rhaglen hyfforddi Sgyrsiau Cydweithredol cenedlaethol yn ogystal â dau ddigwyddiad hyfforddiant a ddatblygwyd yn lleol.

Mae asesiad o anghenion hyfforddiant wedi cael ei gwblhau gyda Rheolwr Timau Plant ar draws yr awdurdod. Mae sesiynau hyfforddiant ar gael i staff a byddant yn cael eu darparu fel rhan o gamau gweithredu'r prosiect, o ardal y peilot i'r gwasanaeth cyfan.

Maent yn cynnwys:

- Sgyrsiau Cydweithredol
- Model Risg
- Amddiffyn Plant yn Effeithiol.

### Ffurflenni / templedi newydd

Bydd y prosiect yn creu nifer o ffurflenni newydd ac yn addasu ffurflenni eraill. Bydd hyn yn sicrhau bod ffocws ar newid a'r graddfeydd mesur yn cael eu cynnwys o fewn y dogfennau craidd.

Mae’r ffurflenni canlynol wedi cael eu haddasu a’u cytuno, ac yn weithredol yn yr ardal peilot. Maent bellach yn fyw ar system WCCIS i staff Cyngor Gwynedd.

- Adroddiad Gwaith Cymdeithasol i Gynhadledd Achos Cychwynnol
- Adroddiad Gwaith Cymdeithasol i Gynhadledd Achos Adolygu
- Cofnodion y Grŵp Craidd.

Mae gwaith yn parhau ar ffurf y Cynllun Amddiffyn Plant.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â Dafydd Paul neu Wendy Roberts drwy

ecp@gwynedd.llyw.cymru

neu ewch i

www.amddiffynplanteffeithiol.cymru